Clychlythyr Nadolig 2019 Christmas Newsletter

Gwasanaeth Carolau – Carol Service

Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau bendigedig yng Nghapel Salem eleni i ddathlu'r Nadolig. Bu'n gyfle arbennig i dynnu yr holl ysgol ynghyd ar un llwyfan i gyflwyno stori y Nadolig Cyntaf mewn modd traddodiadol a Chymreig ei naws. Hoffwn ddiolch i holl swyddogion Capel Salem am eu cydweithrediad wrth ddefnyddio'r capel. Llongyfarchiadau a diolchiadau mwyaf un i'r holl staff a disgyblion am eu gwaith ardderchog wrth ymbaratoi a chyflwyno yn ystod y gwasanaethau hyn.

We had a superb Carol service at Capel Salem this year to celebrate Christmas. It was a great opportunity to draw the whole school together on one stage to introduce the story of the first Christmas in a traditional way. I would like to thank all the officials of Salem Chapel for their cooperation in the use of the Chapel. Congratulations and huge thanks to all the pupils and staff members for their excellent work.

Trefniadau Blwyddyn 6 – Year 6 Arrangements

Bydd Mr ab Elwyn yn parhau i fod yng ngofal Blwyddyn 6 am yr hanner tymor hyd at Chwefror.Dymunai pawb yn Ysgol y Gelli Nadolig Llawen iawn i Mrs Roberts a plant Ysgol yr Eifl.

Mr ab Elwyn will continue in his post as Year 6 class teacher until February.We would all like to wish Mrs Roberts and all the pupils at Ysgol yr Eifl a very Merry Christmas.

Cwricwlwm Newydd i Gymru – New Curriculum for Wales

Mae disgyblion wedi eu dethol i eistedd ar bwyllgor Criwcwlwm Y Gelli. Bydd y pwyllgor pwysig yma yn sicrhau bod llais ein disgyblion yn cael eu clywed wrth i'r ysgol gydweithio gyda ysgolion y dalgylch i baratoi at ddyfodiad y Cwricwlwm Newydd yn 2022. Mae mwy o wybodaeth am y cwricwlwm newydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Pupils have been selected to sit on the school's Curriculum committee. This important committee will ensure that the voice of our pupils is heard as the school works with other schools in the catchment to prepare for the New Curriculum in 2022. More information on the new curriculum can be found on the Welsh Government website.

Criwcwlwm y Gelli

Gwefan Newydd – New Website

Mae gwefan newydd yr ysgol wedi ei lansio ac yn fyw. Ewch i **ysgolygelli.cymru** i gael gwybodaeth,lluniau a hanesion yr ysgol.Diolch i criw Digidol yr ysgol,Mr Ian Davies a Delwedd am yr holl waith caled. Mae tudalen Noddwyr yr ysgol ar y wefan. Cysylltwch gyda'r swyddfa am fwy o fanylion os y dymunwch ymddangos ar y dudalen.

*The new school website has been launched is now live. Go to **ysgolygelli.cymru** for information, photos and other news. Thanks to, the school's Digital team, Mr Ian Davies and Delwedd for all their hard work. The school's Sponsors page is on the website. Contact the office if you need more information.*

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Y Gelli PTA

Diolch o galon i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu holl waith caled yn ystod y tymor. Roedd y Ffair Nadolig yn lwyddiant mawr ac fe godwyd £1,900 i goffrau'r ysgol. Diolch hefyd am drefnu Cardiau Nadolig a Chalendrau .Mae cynlluniau i fuddsoddi mewn mwy o offer a meddalwedd TGCh.

Many thanks to the PTA for all their hard work during the term. The Christmas Fair was a great success and raised £1,900 to the school coffers. A big thank you also for organising the school Christmas cards and calendars. We plan to invest in more chrome books and educational software.

Arian Cinio – Dinner Money

Hoffwn eich atgoffa mai **£2.50 y dydd** yw cost cinio ysgol. Gofynnwn yn garedig am daliadau ar lein yn unig. Diolch i Anti Jen,Anti Lynette ,Anti Ann ac Anti Sam am yr holl fwyd da ac am ginio a parti Nadolig gorau erioed!

*School dinner's is **£2.50.** Make all payments through the School Gateway.* A big thank you to Aunty Jen, Aunty Lynette, Aunty Ann and Aunty Sam for all the lovely food and excellent Christmas dinner!

Presenoldeb a Phrydlondeb – Attendence and Punctuality

Mae'r ysgol yn cychwyn yn brydlon am 9:00yb. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd tir yr ysgol erbyn 8:50yb cyn y gloch ganu. Mae giatiau y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cloi am 9.00yb.
Mae'n angenrheidiol i bob rhiant gysylltu âr ysgol i adrodd am unrhyw absenoldeb.

The school starts promptly at 9:00am. We kindly ask that all parents ensure that your child/children is safely on school grounds by 8:50am before the school bell. We lock the Foundation Phase gate at 9.00am.
It is necessary for parents to inform the school of any absences by telephoning the office.

Diolch – Thank You

Diolch i'r holl ddisgyblion, rhieni, llywodraethwyr a staff yr ysgol am eu holl waith caled yn ystod y tymor . Mae hi wedi bod yn dymor llawn cyffro ond lwyddiannus iawn i'r ysgol . Dymunaf wyliau hapus a dedwydd i bob un ohonoch ac edrychaf ymlaen yn fawr am eich croesawu yn ôl yn y flwyddyn newydd i barhau efo'r gwaith da.

A big thank you to all pupils, parents, governors and staff members for all their efforts, work and support during the past term. It has been a very exciting, busy and successful term for the school. I would like to wish you all a fantastic holiday and I look forward to welcoming you all again in the new year to continue with our work.

Ysgol yn ail-agor i bawb 6.1.20/School re-opens for all 6.1.20

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Merry Christmas and a Happy New Year